This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

Plasnewydd: Cynllun Peilot Heol Wellfield – Cam 2

Mae'r Cyngor yn ymgynghori â thrigolion ynghylch cynigion i newid Cynllun Peilot Heol Wellfield.

Fel y gwyddoch, mae Cyngor Caerdydd wedi rhoi mesurau dros dro ar waith i greu mannau mwy diogel i gerddwyr mewn canolfannau siopa ardal ledled y ddinas, gan gynnwys Heol Wellfield. Mae'r newidiadau ar Heol Wellfield wedi'u cyflwyno i greu lle diogel i alluogi ymbellhau cymdeithasol diogel a bydd yn helpu pawb i ddilyn canllawiau ymbellhau cymdeithasol yn ystod pandemig y Coronafeirws a'r cyfnod adfer.
Yn ogystal â diogelu'r gofod i gerddwyr a chreu lle ar gyfer lletygarwch awyr agored, gosodwyd coed mewn planhigfeydd i helpu i wella amgylchedd y ffordd. Rydym yn cynnig cadw'r coed hyn yn ystod y cam nesaf, a gwella hyn gyda phlannu ychwanegol.
Rydym wedi adolygu'r cynllun peilot hwn, ynghyd â sylwadau a gawsom gan drigolion a busnesau lleol, ac wedi datblygu cam nesaf y project.

Bydd Cam 2 yn cyflwyno'r newidiadau canlynol:

- System un ffordd ar gyfer traffig modur,
    - Heol Wellfield tua'r gogledd o Albany Road at Ninian Road
    - Ffordd Pen-y-Lan tua'r de o Heol Wellfield i Albany Road
- Troedffyrdd yn lledu gyda tharmac newydd a chrybiau 'bollt i lawr' ar ochr orllewinol Heol Wellfield
- Darperir croesfan sebra a mesurau tawelu traffig ar Heol Wellfield
- Bydd lôn feicio dros dro ar wahân yn cael ei gosod ar Heol Wellfield a chaniateir beicio i'r ddau gyfeiriad.
- Ail-gyflwynir parcio aros cyfyngedig ar ochr ddwyreiniol Heol Wellfield, cedwir y man llwytho presennol a darperir tri safle parcio newydd i'r anabl.
- Darperir parcio aros cyfyngedig ar Ffordd Pen-y-Lan a bydd rhywfaint o hyn ar ffurf llinellau onglog.

Mynediad i Gerddwyr

Gosodir croesfan sebra er mwyn gwella'r mynediad i gerddwyr rhwng dwy ochr y ffordd.

Cyflymder traffig

Codwyd pryderon ynghylch cyflymderau'r cerbydau ar Heol Wellfield. Mae Heol Wellfield mewn ardal lle mae cyfyngiad cyflymder o 20mya ar hyn o bryd, o dan Gam 2 darperir bwrdd cyflymder wrth y groesfan sebra er mwyn sicrhau bod cyflymder cerbydau'n cael eu cynnal ar gyflymder araf priodol.

Coed

Gosodwyd coed mewn planhigfeydd dros dro i helpu i wella amgylchedd gwyrdd cyffredinol y ffordd. Rydym yn cynnig cadw'r coed hyn yn ystod y cam nesaf y project ac yn gwella'r ardal drwy blannu coed ychwanegol.

Ardaloedd lletygarwch awyr agored

Mae'r cynllun presennol wedi ein galluogi i ehangu'r troedffyrdd dros dro ar ddwy ochr y ffordd. Ers hynny, mae busnesau wedi defnyddio rhywfaint o'r gofod hwn i osod ardaloedd lletygarwch awyr agored. O dan Gam 2 byddwn yn lledu'r droedffordd ar ochr orllewinol Heol Wellfield drwy osod cyrbau dros dro a'u mewnlenwi gyda tharmac at yr un lefel â'r droetffordd.

Yna gall busnesau wneud cais am drwydded i ddefnyddio'r ardal hon tra bo cyfyngiadau pellter cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn berthnasol. Ni fyddwn yn lledu'r droedffordd ar ochr ddwyreiniol Heol Wellfield.

Darpariaeth Feicio

Os darperir system unffordd ar Heol Wellfield bydd hyn yn ein galluogi i ailddyrannu rhywfaint o'r briffordd at ddefnydd lôn feicio dros dro, y bydd beicwyr yn gallu teithio i'r ddau gyfeiriad ar ei hyd. Caiff y lôn feicio hon ei gwahanu oddi wrth draffig modur gan ddefnyddio cyrbau a chonau wedi eu bolltio.

Mae cynigion yn cael eu datblygu ar hyn o bryd i gysylltu'r lôn feicio dros dro hon ar Heol Wellfield â llwybrau beicio yn y dyfodol ar hyd ymyl Pharc y Rhath ac i ganol y ddinas. Bydd rheiliau parcio beiciau ychwanegol hefyd yn cael eu gosod ar Heol Wellfield.

Mynediad Bysiau

Bydd y safle bws presennol y tu allan i Tesco yn cael ei symud o dan Gam 2. Bydd teithwyr bws sy'n dymuno cael mynediad at wasanaethau bysiau tua'r gogledd Caerdydd yn gallu defnyddio safle newydd ar Albany Road ger y gyffordd â Heol Wellfield, neu'r safle bws presennol ar Ffordd Pen-y-Lan ger y Ganolfan Gymunedol. Bydd safle bws newydd i wasanaethu teithwyr sy'n teithio tua'r de i ganol y ddinas hefyd yn cael ei osod ar Ffordd Pen-y-Lan ger y gyffordd â Heol Wellfield.

Parcio

Codwyd nifer o bryderon ynghylch y newidiadau parcio. Rydym wedi cynnal adolygiad ar y parcio, ac os cyflwynir system unffordd ar Heol Wellfield ac ar Ffordd Pen-y-Lan bydd hyn yn ein galluogi i newid a gwella'r ddarpariaeth parcio.

Cyn y Cynllun		**Cam 2**		
Heol Wellfield				
Mannau Parcio Aros Cyfyngedig	43	Mannau Parcio Aros Cyfyngedig	18	- 25
Man Parcio i'r Anabl	0	Man Parcio i'r Anabl	3	+3
Heol Pen-y-lan				
Mannau Parcio Aros Cyfyngedig	11	Mannau Parcio Aros Cyfyngedig	57	+46
Man Parcio i'r Anabl	0	Man Parcio i'r Anabl	2	+2
Cyfanswm y bylchau:	**54**	**Cyfanswm y bylchau:**	**80**	**+26**

Er bod llai o leoedd parcio ar gael ar Heol Wellfield ei hun, bydd y newidiadau'n cynyddu faint o barcio sydd ar gael yn gyffredinol. Mae parcio ychwanegol ar gael, daith gerdded fer i ffwrdd ar Ffordd Pen-y-Lan ac ar Ninian Road.

Bydd y mannau parcio aros cyfyngedig ar Ffordd Pen-y-Lan ac ar Ninian Road hefyd ar gael i breswylwyr eu defnyddio pan fyddant yn arddangos trwydded ddilys.

Adborth

Hoffem wybod a ydych chi'n cefnogi'r newidiadau arfaethedig yn y cynllun peilot hwn. Byddem yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau sydd gennych ynghylch y cynigion. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau ynghylch y cynnig hwn, anfonwch e-bost atom ni erbyn 12/10/2020.

Diolch yn fawr am eich amynedd, ac os hoffech gysylltu â ni, anfonwch e-bost i ProjectauTrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk

Cynllun Adfer Caerdydd wedi Covid-19

Heol Wellfield Cam 2



Crynodeb o Gynllun Cam 2

System unffordd ar gyfer traffig ar Heol Wellfield (tua'r gogledd) a Ffordd Pen y Lan (tua'r de). Bydd y droedffordd yn cael ei lledu ar ochr orllewinol Heol Wellfield a chaniateir parcio ar ochr ddwyreiniol Heol Wellfield. Bydd croesfan sebra a mesurau tawelu traffig yn cael eu darparu ar Heol Wellfield ynghyd â lôn feicio ar wahân. Caniateir beicio i'r ddau gyfeiriad.